Uned Asesu Niwroddatblygiad
Canolfan Gwyddoniaeth Datblygiad Dynol Prifysgol Caerdydd
Ysgol Seicoleg
Caerdydd, CF10 3AT
02920 870354
NDAU@caerdydd.ac.uk
Twitter: @NDAUCardiff

# Taflen Wybodaeth am yr Astudiaeth
(ar gyfer rhieni plant rhwng pedair a saith oed)

Hoffem eich gwahodd a'ch plentyn i gymryd rhan yn ein hastudiaeth. Cyn penderfynu, hoffem i chi ddeall pam ein bod yn gwneud yr ymchwil hon a'r hyn y byddai'n ei gynnwys. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech gymryd ychydig funudau i ddarllen y wybodaeth hon a'i hystyried.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr astudiaeth, cysylltwch â'r ymchwilwyr. Mae eu manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon a byddant yn hapus i drafod yr astudiaeth gyda chi. Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, bydd aelod o'r tîm ymchwil yn mynd drwy'r daflen hon gyda chi eto cyn i'r astudiaeth ddechrau ac ateb unrhyw gwestiynau pellach.

## Rhan 1: Beth sydd dan sylw yn yr astudiaeth?

*Beth yw diben yr astudiaeth hon?*

Mae'r Uned Asesu Niwroddatblygiad (NDAU) yn rhan o'r Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd, ac fe'i hariennir gan Sefydliad Waterloo. Cynhelir yr NDAU gan grŵp o wyddonwyr sydd â diddordeb mewn deall y problemau cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac ymddygiadol y mae plant ifanc yn eu profi, ac mewn goresgyn yr anawsterau hyn lle bo hynny'n bosibl. I wneud hyn, rydym yn gweithio gyda'ch plentyn i fesur sgiliau gwahanol sy'n bwysig ar gyfer dysgu ac ymddygiad – megis cof tymor byr, sylw, gallu geiriol a deall emosiynau. Bydd y wybodaeth yr ydym yn ei chasglu am eich plentyn yn cael ei bwydo'n ôl i'r gweithiwr proffesiynol a roddodd y daflen wybodaeth hon i chi, a fydd yn ei thrafod gyda chi.

Un nod yr astudiaeth hon yw darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio gan weithwyr proffesiynol er mwyn helpu i lywio'r cymorth y gallai eich plentyn ei dderbyn. Ail nod yw adeiladu darlun o ganfyddiadau'r ymchwil o'r gwahanol alluoedd ac anawsterau sydd gan blant, a fydd yn helpu i nodi dulliau newydd ar gyfer gwella ymddygiad a dysgu.

*Pam rydym wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan?*

Mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ALNCO) ysgol eich plentyn wedi cytuno i adnabod plant a hysbysu rhieni am yr NDAU os ydyn nhw'n credu y gallai'r plentyn elwa o'r astudiaeth. Rydym yn galw'r gweithwyr proffesiynol hyn yn 'atgyfeiriwr' eich plentyn. Gallai ein hasesiadau fod yn ddefnyddiol wrth lunio'r cymorth y mae eich plentyn yn ei dderbyn gan yr atgyfeiriwr hwn. Dyna pam eich bod wedi cael eich gwahodd i gymryd rhan.

*Oes rhaid inni gymryd rhan?*

Nac oes, chi sy’n gallu penderfynu a ydych am ymuno â’r astudiaeth. Byddwn yn disgrifio'r astudiaeth ac yn mynd drwy'r daflen wybodaeth hon eto wyneb yn wyneb. Os ydych yn cytuno cymryd rhan, gofynnwn i chi lofnodi ffurflenni sy'n rhoi caniatâd i chi a'ch plentyn gymryd rhan. Hyd yn oed os byddwch yn darparu'r caniatâd hwn, mae croeso i chi dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi rheswm. Ni fydd hyn yn effeithio ar safon y gofal na'r cymorth y mae eich plentyn yn ei dderbyn.

*Beth fydd yn digwydd os ydym yn penderfynu cymryd rhan?*

Byddwch chi a'ch plentyn yn cael eich gwahodd i ymweld â'r NDAU ar adeg sy'n gyfleus i'r ddau ohonoch. Pan fyddwch yn yr NDAU, bydd ymchwilydd sy'n seicolegydd yn eistedd gyda'ch plentyn ac yn gweithio drwy nifer o dasgau sy'n asesu meysydd megis cof, sgiliau iaith, sylw a chydnabod emosiynau. Mae'r rhain i gyd wedi'u dylunio i'w defnyddio gyda phlant, a lle bo'n bosibl rydym wedi dylunio'r rhain fel gemau, ac maent yn tueddu i gymryd tua phump i ddeg munud yr un.

Bydd digon o seibiannau a bydd angen un bore ac un prynhawn (rhwng dwy a thair awr yr un) i gwblhau popeth. Wrth i ni asesu eich plentyn, bydd ail ymchwilydd yn cyfweld â chi mewn ystafell ar wahân i nodi prif anghenion a heriau eich plentyn. Dim ond un rhiant / rhoddwr gofal sydd ei angen i gwblhau'r cyfweliad hwn ac felly rydym yn argymell mai dim ond yr unigolyn hwn sy'n mynd â'ch plentyn i bob apwyntiad. Mae hefyd gennym holiaduron i chi eu cwblhau. Mae'r rhain yn dweud wrthym am eich argraffiadau o gryfderau ac anghenion eich plentyn, yn ogystal ag am hanes eich teulu. Defnyddir y wybodaeth a gesglir gennych ar gyfer ymchwil ac ni fydd yn cael ei bwydo'n ôl i'r ysgol (heblaw am eich sgoriau am eich plentyn ar yr 'Holiadur Cryfderau ac Anawsterau', a gaiff eu bwydo'n ôl yn yr adroddiad, gyda'ch caniatâd). Sylwer, bydd yr holiaduron rhieni a'r cyfweliadau yn cael eu cynnal yn Saesneg. Bydd eich plentyn yn derbyn anrheg fach am gymryd rhan yn yr asesiadau.

Gwneir recordiad fideo o sesiynau asesu eich plentyn at ddibenion ymchwil, diogelwch a hyfforddiant. Yn benodol, gellir defnyddio'r fideo i ddangos agweddau pwysig ar ddatblygiad plant i ymchwilwyr newydd. Gellir ond adnabod y recordiad fideo hwn gan ddefnyddio rhif adnabod ymchwil, felly ni fydd enw eich plentyn yn gysylltiedig â’r fideo. Bydd y fideo hwn o dan oruchwyliaeth tîm ymchwil yr Athro van Goozen, ac ni chaiff ei drosglwyddo i unigolion diawdurdodedig.

*Oes unrhyw beth arall y gofynnir imi ei wneud?*

Yn y ffurflen ganiatâd, gofynnir i chi a hoffech inni gysylltu â chi ynghylch unrhyw astudiaethau posibl yn y dyfodol. Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i gytuno i hyn, a hyd yn oed pe byddech yn gwneud hyn, nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i ymateb i unrhyw gyswllt yn y dyfodol.

Yn ystod y sesiwn, byddwn ni hefyd yn gofyn i gael mesur cyflymder calon eich plentyn am tua 15 munud gan ddefnyddio dyfais fonitro fach. Bydd y monitor yn cael ei wisgo ar yr arddwrn fel oriawr ac nid yw'n achosi unrhyw risg i'ch plentyn. Mae'r ddyfais yn ein galluogi i dderbyn gwybodaeth bwysig am gyflymder calon eich plentyn i ddangos i ni pa mor hamddenol neu gyffrous yw eich plentyn wrth gwblhau rhai tasgau. Gallwch chi dynnu’r ddyfais i ffwrdd ar unwaith os yw'ch plentyn yn teimlo'n anghyfforddus yn ei ddefnyddio, a gall y dasg barhau hebddo.

*Beth yw’r anfanteision a manteision posibl wrth gymryd rhan?*

Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth hon yn isel iawn: mae’r gweithdrefnau a ddefnyddir i gyd wedi’u
profi gyda channoedd o blant heb unrhyw effaith negyddol. Mantais cymryd rhan yw y gallwn ddarparu asesiad manwl i'r atgyfeiriwr o gryfderau ac anghenion eich plentyn. Gall hyn fod yn ddefnyddiol wrth helpu eich plentyn yn amgylchedd yr ysgol. At hynny, bydd eich cyfranogiad yn ein hastudiaeth yn ein helpu i ddeall pam mae'r anawsterau hyn yn digwydd a sut y gellir eu goresgyn.

*Beth os bydd problem?*

Rhoddir sylw i unrhyw gŵyn am y ffordd rydych chi neu'ch plentyn wedi cael eich trin yn ystod yr astudiaeth neu unrhyw niwed y gallech chi neu'ch plentyn ei ddioddef. Eglurir ein gweithdrefn gwynion yn Rhan 2.

*A fydd ein gwybodaeth yn cael ei chadw’n gyfrinachol?*

Bydd. Byddwn yn dilyn ymarfer moesegol a chyfreithiol a thrinnir yr holl wybodaeth amdanoch chi a'ch plentyn yn gyfrinachol. Ceir gwybodaeth fanylach am hyn yn Rhan 2. Os ydych yn ystyried cymryd rhan yn yr astudiaeth ar ôl darllen y wybodaeth hon, darllenwch y wybodaeth ychwanegol yn Rhan 2 cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

**Rhan 2: Pa ffactorau eraill y dylwn eu hystyried?**

*Beth fydd yn digwydd os nad wyf am barhau â'r astudiaeth?*

Byddwch chi a’ch plentyn yn rhydd i dynnu yn ôl o'r astudiaeth unrhyw bryd, heb roi unrhyw reswm. Ni fyddai hyn yn effeithio ar safon y cymorth y mae eich plentyn yn ei dderbyn. Os hoffech, gallwn ddileu'r holl ddata a gesglir cyn i chi dynnu'n ôl.

*Beth os bydd problem?*

Os oes gennych bryder am unrhyw agwedd ar yr astudiaeth hon, dylech ofyn yn gyntaf i siarad â Chyfarwyddwr yr NDAU, yr Athro Stephanie van Goozen (manylion cyswllt isod). Os bydd unrhyw beth anffodus yn digwydd yn ystod eich ymweliad (sy’n annhebygol iawn), mae Prifysgol Caerdydd wedi yswirio pob gwirfoddolwr rhag niwed esgeulus.

*Os ydw i’n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon, a fydd hyn yn cael ei gadw’n gyfrinachol?*

Trinnir yr holl wybodaeth bersonol a gesglir yn ystod yr astudiaeth yn gyfrinachol. Cedwir yr holl wybodaeth yn ddiogel ac ar ffurf anhysbys sy'n atal defnyddwyr anawdurdodedig (pobl o’r tu allan i'r tîm ymchwil) rhag ei chysylltu ag unrhyw wybodaeth sy'n adnabod eich plentyn neu'ch teulu. Mae Prifysgol Caerdydd yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018 mewn perthynas â chasglu, cadw, prosesu a datgelu gwybodaeth bersonol, ac mae wedi ymrwymo i gynnal egwyddorion diogelu data craidd y Ddeddf.

*Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth hon?*

Anfonir adroddiad technegol o ganlyniadau ein hasesiadau gyda'ch plentyn yn ôl at yr atgyfeiriwr ar ffurf adroddiad, y gall ei ddefnyddio i lywio'r cymorth a roddir ganddo i'ch plentyn. Mae'r adroddiad yn cymryd tua 6-8 wythnos i'w gwblhau. Byddwn yn eich hysbysu pan fyddwn wedi anfon yr adroddiad hwn a gallwch drefnu cyfarfod gyda'r atgyfeiriwr i drafod yr adroddiad. Bydd canlyniadau gwyddonol yr astudiaeth yn cael eu dadansoddi a'u hastudio gan y tîm ymchwil; dim ond aelodau o'r tîm ymchwil gaiff fynediad at y data. Adroddir ar y canlyniadau hyn mewn papurau gwyddonol a'u cyhoeddi mewn cyfnodolion, a gellir eu cyflwyno mewn cynadleddau. Ni fydd modd eich adnabod chi a'ch plentyn yn bersonol yn ein disgrifiad o'n canfyddiadau.

*A fyddaf yn derbyn copi o adroddiad asesu fy mhlentyn?*

Na fyddwch, ni fyddwch yn derbyn copi o'r adroddiad asesu. Mae cymeradwyaeth foesegol yr astudiaeth ond yn caniatáu inni anfon adroddiad i ysgol eich plentyn fel yr atgyfeiriwr dros dro. Gall yr adroddiad technegol hwn o'r canlyniadau fod yn ddefnyddiol wrth helpu'ch plentyn yn amgylchedd yr ysgol. Rydym yn argymell bod yr atgyfeiriwr yn cyfarfod â chi fel rhiant / rhoddwr gofal i drafod canlyniadau'r adroddiad hwn.

*Pwy sy'n trefnu'r ymchwil hon a sut mae'n cael ei ariannu?*

Ariennir yr ymchwil gan Sefydliad Waterloo. Adolygir yr holl waith ymchwil sy'n recriwtio plant gan grŵp annibynnol o bobl, a elwir yn Bwyllgor Moeseg Ymchwil. Mae'r astudiaeth hon wedi'i hystyried yn ofalus a'i chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Caerdydd.

*Mae gennyf ddiddordeb mewn cymryd rhan, beth ddylwn i ei wneud nesaf?*

Llenwch y ffurflen Mynegi Diddordeb a'r ffurflen Caniatâd gyda'r ALNCO eich ysgol a byddan nhw'n eu dychwelyd at yr NDAU.

Ewch i'n gwefan (https://www.cardiff.ac.uk/cy/research/explore/research-units/neurodevelopment-assessment-unit) i gael rhagor o wybodaeth ac i wylio fideo sy'n dangos beth sy'n digwydd yn ystod ymweliad â'r NDAU.

**Manylion cyswllt y tîm ymchwil:**

Dr Steve Eaton – NDAU@caerdydd.ac.uk.

Yr Athro Stephanie van Goozen (Cyfarwyddwr yr NDAU)– vangoozens@caerdydd.ac.uk.

**Uned Asesu Niwroddatblygiad,**
**Canolfan Gwyddoniaeth Datblygiad Dynol Prifysgol Caerdydd,**
**Plas y Parc,**
**Caerdydd, CF10 3AT**
**Ffôn: 02920 870354**
**E-bost: NDAU@caerdydd.ac.uk**

Prifysgol Caerdydd yw'r rheolydd data ac mae wedi ymrwymo i barchu a diogelu eich data personol yn unol â'ch disgwyliadau a deddfwriaeth diogelu data. James Merrifield yw

Swyddog Diogelu Data'r brifysgol a gellir cysylltu ag ef ar merrifieldj1@caerdydd.ac.uk. Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelu data, gan gynnwys eich hawliau a sut mae cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych am gwyno am rywbeth yma: https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection

Cedwir yr wybodaeth ar y ffurflen ganiatâd yn ddiogel ac ar wahân i'r wybodaeth ymchwil. Dim ond yr ymchwilydd fydd â mynediad i'r ffurflen hon, a bydd yn cael ei dinistrio ar ôl saith mlynedd.

Bydd yr wybodaeth ymchwil a ddarparwch yn cael ei defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig a chaiff ei storio'n ddiogel. Dim ond aelodau o dîm ymchwil NDAU fydd â mynediad i'r wybodaeth hon. Ar ôl saith mlynedd, bydd y data'n cael ei wneud yn ddienw (tynnir unrhyw elfennau sy'n caniatáu adnabod allan), a gellir cadw'r wybodaeth ddienw hon neu ei chyhoeddi heb derfyn amser.